Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Archwilio cyrhaeddiad a defnydd Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru

## Crynodeb

Mae hwn yn gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith â thâl ar brosiect i Lywodraeth Cymru. Nod y prosiect yw creu mewnwelediadau gweithredadwy trwy fynd i'r afael â bylchau data, gwella cymwysiadau polisi, a hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ARWAP, ac amcanion ymchwil ymfudo ehangach Llywodraeth y DU, gan o bosib ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru i ddatblygu ystod amrywiol o allbynnau ymchwil a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei nodau ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, datblygu sgiliau generig ymhellach (megis ysgrifennu adroddiadau neu wneud cyflwyniadau), ac i wella eu gwybodaeth am ymchwil y tu allan i'r byd academaidd.

## Y Sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), sy'n eistedd o fewn Uned Dystiolaeth Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae KAS yn darparu casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisi a'r cyhoedd yn gyffredinol yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi gyda datblygu polisi, gweithredu a chyflawni.

Mae Uned Dystiolaeth Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Tîm Cefnogi ac Integreiddio i gyd yn gefnogol i'r prosiect, yn cydnabod ei werth ac wedi ymrwymo i gefnogi'r myfyriwr PhD gymaint â phosibl trwy arweiniad a chydweithio.

Mae'r parodrwydd trawsadrannol hwn i ymgysylltu yn cryfhau dichonoldeb y prosiect ac yn tynnu sylw at y gydnabyddiaeth a rennir o'i bwysigrwydd wrth fynd i'r afael â bylchau mewn strategaethau integreiddio data a mudo.

Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda thîm Cenedl Noddfa a bydd yn dod yn gyfarwydd â pholisïau trawsbynciol yn y maes gwaith hwn.

## Yr Interniaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf yn y manteision a ddaw yn sgil mudo i Gymru ac rydym yn gweithio i gefnogi integreiddio mudwyr gyda'u cymunedau lletyol cyn gynted â phosibl. Bydd yr interniaeth hon yn cyfrannu at archwilio cyrhaeddiad a defnydd Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru, gan gynnwys nodi rhwystrau posibl i'w fabwysiadu a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol, er mwyn llywio ymdrechion parhaus i wreiddio'r fframwaith. Nod yr interniaeth yw creu mewnwelediadau gweithredadwy trwy fynd i'r afael â bylchau data, gwella cymwysiadau polisi, a hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, ARWAP, ac amcanion ymchwil mudo ehangach Llywodraeth y DU, gan o bosib ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr interniaeth yn gofyn am weithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd yn rhoi cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, datblygu sgiliau generig ymhellach (megis ysgrifennu adroddiadau neu wneud cyflwyniadau), ac i wella gwybodaeth am bolisïau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa o gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a all gynnwys mentora, cysgodi, cymorth cymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa o'r profiad o weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil.
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy.
- Sgiliau rheoli amser.
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau.

## Y Prosiect

### Archwilio cyrhaeddiad a defnydd Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru

*Cefndir*

Cyhoeddwyd Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru ym mis Rhagfyr 2023 a chyhoeddwyd y diweddariad cynnydd blynyddol cyntaf ym mis Rhagfyr 2024. Dyluniwyd ein fframwaith i fesur pa mor dda yr ydym yn cyflawni integreiddio trwy olrhain cynnydd blynyddol ar draws 7 parth allweddol bywyd. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y fframwaith yn addas i'r diben ac yn adnodd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ein partneriaid rhanddeiliaid. I'r perwyl hwn, nod y prosiect hwn yw archwilio a deall yn well gyrhaeddiad cyfredol a chanfyddiadau'r fframwaith, yn ogystal ag unrhyw rwystrau i'w dderbyn, gan gydnabod ei fod yn dal i fod yng nghamau cymharol gynnar ei

hyrwyddo. Byddai disgwyl y byddai'r intern yn cyfweld ag ystod o randdeiliaid a defnyddwyr y fframwaith er mwyn asesu ymwybyddiaeth, defnydd, ac unrhyw heriau gyda'r bwriad o wneud argymhellion ar gyfer datblygu'r fframwaith wrth symud ymlaen.

*Canlyniadau prosiect a ragwelir:*

Mae'r canlyniadau disgwyliedig yn cynnwys:

1. Gwella llunio polisi mudo trwy fewnwelediadau sy'n cael eu gyrru gan ddata.

2. Cryfhau ymgysylltiad cymunedol i feithrin integreiddio.

3. Cyfrannu at ddealltwriaeth academaidd a chyhoeddus o fframweithiau mudo.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis, gyda'r opsiwn o estyniad, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y sefydliad cartref yn rhewi prosiect PhD y myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei dalu'r hyn sy'n cyfateb i'w dâl (stipend) yn ystod ei interniaeth. Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gellir trefnu amser ar gyfer ymrwymiadau PhD drwy drafod gyda'r rheolwyr llinell, e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau cynhadledd. Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser am uchafswm o 6 mis (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

## Manyleb myfyriwr

Rhaid bod gan y myfyriwr:

- Cofrestriad cyfredol PhD mewn disgyblaeth berthnasol (e.e. gwyddorau cymdeithasol, astudiaethau mudo, polisi cyhoeddus, dadansoddi data, neu faes cysylltiedig).
- Sgiliau ymchwil cryf.
- Sgiliau casglu a dadansoddi data.
- Y gallu i weithio'n annibynnol a rheoli llwyth gwaith eich hun tra'n gyfrannu'n effeithiol at dîm.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar cryf, gan gynnwys profiad o ddrafftio adroddiadau neu gyflwyno canfyddiadau ymchwil.
- Diddordeb mewn datblygu polisi.
- Y gallu i werthuso tystiolaeth yn feirniadol a chynhyrchu dadansoddiad clir, rhesymegol.

Yn ddelfrydol, bydd gan y myfyriwr (meini prawf dymunol):

- Ddiddordeb mewn materion mudo, integreiddio neu gyfiawnder cymdeithasol.
- Y dymuniad i weithio gyda'r llywodraeth neu randdeiliaid allanol.
- Yr awydd i gynhyrchu allbynnau ymchwil ar gyfer cynulleidfaoedd anacademaidd.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Gwanwyn 2025 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau YGGCC. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn YGGCC ar: enquiries@wgsss.ac.uk

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio i michelle.roberts011@gov.wales / cathy.jackson001@gov.wales